# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Domcare@fieldbay ltd**

**Fieldbay (2019) Ltd**
**Chestnut House Pentref Busnes Tawe**
**Abertawe**
**SA7 9LA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

8 Tachwedd 2022

03/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Domcare@fieldbay ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Domcare@fieldbay limited |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 10 Chwefror 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae Gwasanaeth Cymorth Cartref Fieldbay yn darparu safon dda o ofal a chymorth i bobl. Gwnaethom siarad ag amrywiaeth eang o bobl er mwyn cael adborth, gan gynnwys; y bobl sy'n cael cymorth, perthnasau, gweithwyr gofal, rheolwyr a'r Unigolyn Cyfrifol. Roedd prosesau a dogfennaeth cynllunio cymorth cadarn a thrylwyr ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Mae'r darparwr yn sicrhau bod y bobl yn cael eu cynnwys yn llawn a'u bod yn cymryd rhan yn y penderfyniadau a wneir am eu hanghenion gofal a chymorth. Gwelsom fod y cymorth a ddarperir yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau. Mae trefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd cadarn a chlir ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr Cofrestredig yn chwarae rhan weithgar ac maent yn bresennol ac yn gyfarwyddol yn y gwasanaeth. Mae amrywiaeth eang o hyfforddiant craidd ac arbenigol ar gael i'r gweithwyr gofal. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y rheolwyr yn gefnogol iawn. Mae gwiriadau dilysu a chydymffurfio cadarn ar waith ar gyfer y staff. Mae polisïau a gweithdrefnau manwl ar waith i dywys y staff ac mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a chaiff cyfranogiad, dewis a chynhwysiant eu hybu'n weithredol a'u parchu gan y darparwr. Gwelsom ddogfennaeth o safon dda ym mhob rhan o'r gwasanaeth, gan gynnwys cynlluniau cymorth y bobl, asesiadau risg, gwybodaeth iechyd, adolygiadau a chadw cofnodion. Rhoddodd y bobl a'r perthnasau adborth a oedd yn gyson gadarnhaol am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd un perthynas wrthym: *“very happy with the standard of care and support provided. Communication with and from is very good. No complaints or concerns”.* Ymgynghorir yn rheolaidd â'r bobl am eu hanghenion cymorth a gofal.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg a'i reoli'n dda. Mae trefniadau goruchwylio clir ar waith gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr Cofrestredig. Caiff gwiriadau ansawdd eu cwblhau'n briodol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol. Mae'r adroddiad diweddaraf ar yr adolygiad o ansawdd y gofal a gwblhawyd gan yr Unigolyn Cyfrifol yn cynnwys gwybodaeth fanwl a thrylwyr am yr adborth a gafwyd gan y bobl a pherthnasau, archwiliadau ansawdd a diogelu. Dywedodd yr holl weithwyr gofal wrthym fod ganddynt gydberthynas waith gadarnhaol â'u rheolwyr, eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod y rheolwyr yn gwrando arnynt. Gwelsom fod gwiriadau yn cael eu cwblhau gan yr Unigolyn Cyfrifol, bod cyfarfodydd uwch-reolwyr yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod cyfarfodydd staff yn cael eu cynllunio a'u dogfennu. Mae'r lefelau staffio yn adlewyrchu anghenion y bobl fel y'u dogfennir yn y cynlluniau gofal a'r asesiadau.

Mae gweithwyr gofal profiadol a gwybodus sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn gweithio yn y gwasanaeth. Gwelsom wybodaeth am y staff a oedd yn dangos cydymffurfiaeth â'r rheoliadau mewn perthynas â'r gwiriadau gofynnol. Mae'r gweithwyr gofal yn cael amrywiaeth dda o hyfforddiant craidd ac arbenigol er mwyn sicrhau y gallant ymgymryd â'u rolau gwaith yn effeithiol ac i safon uchel. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd wedi'u cynllunio. Rhoddodd y gweithwyr gofal adborth cyson gadarnhaol i ni am y cymorth a'r hyfforddiant y maent yn eu cael. Mae cymorth gan wahanol weithwyr proffesiynol mewnol hefyd ar gael i'r gwasanaeth, fel therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion.

Caiff y bobl eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod gan fod y gweithwyr gofal yn adnabod yr arwyddion ac yn gwybod sut i fynegi pryderon os byddant yn amau bod risg i lesiant rhywun. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant rheolaidd a chyfredol ar ddiogelu ac mae polisïau a gweithdrefnau clir a manwl ar gael iddynt i'w tywys. Mae asesiadau a chynlluniau rheoli risg cadarn iawn ar waith er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel a hybu eu hannibyniaeth cymaint â phosibl. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant mewn

perthynas â rheoli heintiau a COVID-19 a cheir cyflenwadau da o gyfarpar diogelu personol (PPE).

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth o safon dda. Gwnaethom ymweld â dau leoliad byw â chymorth a gwnaethom siarad â'r bobl, perthnasau, y rheolwyr, y gweithwyr gofal a'r Unigolyn Cyfrifol. Cawsom hefyd 14 o holiaduron adborth gan y gweithwyr gofal. Mae'r adborth a gafwyd am ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir ym mhob rhan o'r gwasanaeth yn gadarnhaol. Dywedodd un person wrthym; *"staff are really good here. If I need anything the staff bend over backwards to help".* Dywedodd person arall; *"staff are really good and helpful. They support me to go out regularly which I greatly enjoy".* Dywedodd pob un o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus yn byw yn eu cartref a'u bod yn cael cymorth i gynnal a gwella eu hannibyniaeth. Dywedodd perthynas wrthym; *"they honour and support … independence … goes out a lot and is a lot better because of the support and environment provided".* Dywedodd perthynas arall; *"yes very happy with care and support provided. They are very accommodating…I am in touch regularly and have no complaints or concerns whatsoever".* Cadarnhaodd pob un o'r perthnasau y gwnaethom siarad â nhw fod y cyfathrebu â'r gwasanaeth a chan y gwasanaeth yn dda ac y rhoddir gwybod am unrhyw broblemau yn brydlon.

Mae gan y gwasanaeth gynllun cymorth cywir a chyfredol a gaiff ei adolygu'n rheolaidd. Ategir y cynllun hwn gan asesiadau risgiau iechyd manwl a thrylwyr a threfniadau da ar gyfer cadw cofnodion. Gwnaethom gwblhau archwiliad o dair ffeil cymorth o ddau leoliad byw â chymorth. Gwelsom dystiolaeth dda o waith cynllunio a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, a thystiolaeth bod unigolion yn cymryd rhan ac yn cael eu cynnwys. Nodwyd gennym, lle y bo'n briodol, fod y bobl yn cael eu cynnwys yn llawn ac yr ymgynghorwyd yn llawn â nhw wrth gynllunio cymorth a gwneud dewisiadau. Gwelsom gofnodion 'my meeting' a gaiff eu cwblhau gyda'r bobl bob mis. Maent yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn sy'n bwysig i'r bobl a'u dewisiadau mewn perthynas ag amrywiaeth eang o feysydd gan gynnwys mynediad cymunedol. Er ein bod wedi gweld cofnodion adolygu manwl ar gyfer y cynllun cymorth, gwnaethom drafod sut y gellir eu gwella er mwyn nodi cyflawniadau a chynnydd y bobl yn well. Cytunodd y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol i ystyried sut y gellir eu gwella. Lle nad oedd y bobl o bosibl yn gallu cymryd rhan lawn yn y broses, gwelsom fod trefniadau cynllunio er budd yr unigolyn ac egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) yn cael eu dilyn. Cyflwynwyd cydgysylltydd gweithgareddau yn ddiweddar yn un o'r lleoliadau byw â chymorth. Gwnaethom siarad â'r cydgysylltydd gweithgareddau sy'n bwriadu cynnal amrywiaeth eang o ddigwyddiadau cymunedol ac sydd wedi adnewyddu

‘caban hobïau’ ar dir y lleoliad yn ddiweddar ar y cyd â'r bobl sy'n cael cymorth. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau crefftau, gweithgareddau cymdeithasol a gweithgareddau cymunedol o'u dewis.

Mae'r bobl yn ddiogel ac mae'r risgiau i'w hiechyd a'u llesiant yn cael eu lleihau cymaint â phosibl. Dywedodd pob un o'r gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant diogelu a bod yr hyfforddiant hwnnw'n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn. Gwelsom fod gwybodaeth a manylion am sut i roi gwybod am achosion diogelu a chwythu'r chwiban wedi'u cadw ym mhob un o'r lleoliadau byw â chymorth. Roedd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar wybodaeth dda am bwysigrwydd diogelu a'u cyfrifoldebau. Gwelsom fod mesurau rheoli heintiau cadarn ar waith ynghyd â chyflenwadau da o gyfarpar diogelu personol (PPE).

## Yr Amgylchedd

Nid yw ansawdd yr amgylchedd yn thema sy'n gymwys ar gyfer gwasanaeth cymorth cartref. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn gweithredu o swyddfa hunangynhwysol â chyfleusterau da i'r staff a rhai lleoedd parcio oddi ar y ffordd. Mae'r ystafelloedd a welwyd yn lân ac yn cynnwys adnoddau digonol. Ceir hefyd fannau addas ar gyfer cadw cofnodion a chynnal cyfarfodydd a chabinetau ffeilio wedi'u cloi ar gyfer storio gwybodaeth gyfrinachol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd cadarn a thrylwyr ar waith yn y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr Cofrestredig yn chwarae rhan amlwg wrth weithredu a rhedeg y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal gwiriadau bob tri mis o'r gwasanaeth a ddarperir ac yn llunio adroddiadau manwl bob chwe mis ar ansawdd y gofal. Mae'r gwiriadau bob tri mis diweddaraf a gwblhawyd gan yr Unigolyn Cyfrifol yn cynnwys trafodaethau â; y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gweithwyr gofal, rheolwyr a gwybodaeth am ganmoliaeth, cwynion, materion diogelu ac ati. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld yn rheolaidd â bob un o'r lleoliadau byw â chymorth a cheir adroddiadau manwl sy'n dangos tystiolaeth o'r ymweliadau hyn.  Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr Cofrestredig wrthym fod sawl swydd dirprwy reolwr yn wag ar hyn o bryd. Dywedodd rhai o'r gweithwyr gofal wrthym fod hyn yn achosi dryswch ar hyn o bryd o ran atebolrwydd rheolwyr. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym y caiff y sefyllfa hon ei datrys maes o law ac y caiff penderfyniadau eu gwneud mewn perthynas â'r cynlluniau ar gyfer dyfodol y swyddi hyn. Er gwaethaf hyn, mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr Cofrestredig yn gweithio'n galed i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth a bod y staff yn cael eu cefnogi'n briodol.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod y gweithwyr gofal yn addas a'u bod yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau, y cymhwysedd a'r cymwysterau gofynnol i ddarparu safon dda o ofal a chymorth. Gwnaethom edrych ar y cynllun hyfforddiant cyffredinol i'r staff a gwelsom fod yr holl hyfforddiant ar gyfer y gweithwyr gofal, fwy neu lai, yn gyfredol. Gwnaethom siarad yn uniongyrchol ag wyth gweithiwr gofal a chadarnhaodd pob un ohonynt fod eu hyfforddiant yn gyfredol a'i fod yn ymdrin ag amrywiaeth eang o feysydd craidd ac arbenigol. Mae gweithwyr proffesiynol mewnol hefyd ar gael i'r gwasanaeth, fel; therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion a nyrsys. Gwnaethom edrych ar 12 o

ffeiliau staff ac roedd yr holl ddogfennaeth recriwtio ar gael, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), y mae pob un ohonynt yn gyfredol. Mae bron pob un o'r gweithwyr gofal bellach wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol a gaiff eu dogfennu. Rhoddodd y gweithwyr gofal adborth cyson gadarnhaol i ni am y cymorth y maent yn ei gael. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym; *“really supportive manager – regular planned supervision in place every 3 months”.* Dywedodd gweithiwr gofal arall; *“really good support – open door policy. Extremely supportive of me and my situation”.* Mae polisïau a gweithdrefnau manwl a thrylwyr sy'n gyfredol ac yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen. Gwnaethom ddarllen y Datganiad o Ddiben diweddaraf sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/01/2023